

# MAM A LLYFRAU COED-Y-PRY

Gan Awel Jones

UN arw am gasglu pethau oedd fy mam; câi fwynhad mawr yn mynychu arwerthiannau hen bethau a bu'n gwsmer da i'r arwerthwyr lleol am nifer o flynyddoedd. Yn y cyfnod pan ddaeth prynu dodrefn modern y chwedegau yn ffasiynol, prynai gelfi solet o bren da. Erbyn hyn mae'r amrywol ddodrefn hynny yn ein meddiant ni, ei phlant, ac yn eu mys mae dau ddodrefnyn cerfiedig a wnaed ar gyfer meddyg lleol rywbyrd yn nechrau'r ganrif.

Nid dodrefn yn unig a brynai ond hefyd llyfrau, oherwydd roedd yn ddarllenwraig awchus. Addysg elfennol mewn cwm anghysbell ym Meirionnydd a gafodd, ond roedd ganddi ddiddordeb mewn llenyddiaeth a hanes, a gallai fod wedi gwneud mwy o ddefnydd o'i gwybodaeth. Roedd hyn cyn dyddiau'r Dysgu Agored ac yn sicr doedd merched ddim yn mynd ar gyrsiau 'Dychwelyd i Waith!' Ambell fore, ar ôl gorffen godro a chael brecwast, fe eisteddai i ddarllen plwc. Cyfnod y Rhyfel Cartref oedd ei hoff faes ac nid rhyfedd hynny, oherwydd o'r tŷ ble'i maged gallai weld cartrefi John Jones, Maesygarneidd a William Philip o'r Hendre Waelod — y naill yn Seneddwr pybyr a'r llall yn awyddus i roi 'Cryman am wddw Cromwell'.

I ddychwelyd at ei phwrcasu, y mwyaf diddorol a gwerthfawr yn ei golwg oedd llyfrgell Thomas Edwards, Coed y Pry, brawd Syr O. M. Edwards. Cofiaf mor falch oedd ohonynt a ninnau ar y pryd yn ddigon gwamal o'r 'llanast' a ddeuai i'r tŷ.

Cymeriad ffraeth a lliwgar oedd Thomas, y brawd nesaf o ran oedran i Owen. Ceir hanes amdano ar un o'i deithiau gyda'r porthmyn. Gan fod cymaint o ddynion angen gwely gallai gwystai fynd yn anghyfforddus o lawn. Aeth i'w wely'n gynnar a chloi drws y llofft. Pan ddaeth y westwraig i guro'r drws a gofyn pwy oedd yn yr ystafell, atebodd fel hyn, 'Tom Coedypry, Tomos Edwards y Felin, Twm Cae Rhys a finne!'

Cynhwysai llyfrgell Coed y Pry, yn naturiol ddigon, lawer o lyfrau a gyhoeddwyd gan O. M. Edwards — nifer helaeth o

'Gyfras y Fil'; *Llyfr Del* (1906); cyfrol *Er Mwyn Iesu*, sef hanes yr Huguenotiaid a ysgrifennwyd ganddo pan oedd yng Ngenefa. Ar wyneb-ddalen y llyfr yma, yn llawysgrifen gain yr awdur ei hun, mae enw ei fam, Elizabeth Edwards, Coed y Pry.

Ymysg y cyfrolau eraill mae *Taith y Pererin* a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol, Llundain gyda darluniau gwreiddiol gan Harold Copping. Yng nghofiant O. M. Edwards, gan W. J. Gruffydd, 'dywedir mai drwy gymharu *Taith y Pererin* oedd yng nghwprdd ei dad â'r *Pilgrim's Progress* y dysgodd Saesneg. Gall y gwybodusion ohonoch ddweud ym mha flwyddyn y cyhoeddwyd y llyfr sy'n fy meddiant ac mai prin ei bod yr un gyfrol.

Cyfrolau eraill sy'n edrych yn eithaf diddorol, er nad wyf wedi eu darllen hyd yn hyn, yw *Yr Hen Ddoctor* gan Ian Maclaren a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan R. H. Jones (1905), a *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* gan S. M. Saunders (1907).

Un arall o feibion Coed y Pry oedd J. M. Edwards, ac ef a olygodd y gyfrol *Mabinogion o Lyfr Coch Hergest* ym 1896 ac a'i cyflwynodd, 'Nid i'r hanesydd ... ac nid i'r hynafiaethwr ... ond i blant ein hysgolion, ac i deuluoedd ar yr aelwyd hirnos gauaf, yr adroddir hwy y tro hwn'. Addas iawn felly fod copi yng Nghoed y Pry.

Ond y gyfrol a drysoraf fwyaf yw llyfr *Hymnau y Methodistiaid Calfinaidd* a gyhoeddwyd ym 1869 pan oedd O. M. Edwards yn blentyn. Enw 'Mrs Edwards, Caer Rhys' sydd ar yr wyneb ddalen ac mae'r emyn 'Cofio am farwolaeth Iesu' wedi ei ysgrifennu gyferbyn. Er nad oes gennyf brawf o hynny, hoffaf feneddwl mai o'r llyfr hwn y bu'r teulu yn dysgu emynau ar gyfer yr Ysgol Sul a'i fod yn un o'r llyfrau prin ar aelwyd Cae Rhys. Dyfynnir O.M. yn sôn am ei dad, eto yn y *Cofiant*:

Byddai'n canu gyda ni'r plant ar yr aelwyd bob min nos. Hen hymnau duwiol iawn, nes yr âi fy mam i'w gwely, yna pethau mwy llon a difyr ar fesur tant, rhai ohonynt yn smala iawn. Gwaeddai fy mam o'r siamber, 'Rhag c'wilydd i ti, Owen, ganu rhyw hen wagedd fel yna.' 'O, canu tipyn o hen benillion bach diniwed i'r plant, 'rwy i Beti bach,' ebai yntau dan wenu.

Yn ddiweddar bŵm yn darllen hanes sefydlu Llyfrgell Gyhoeddus Llanuwchllyn gan mlynedd yn ôl. Dyma'r llyfrgell gyntaf i'w sefydlu gan unrhyw gyngor plwy yng Nghymru, a gwiredwyd y freuddwyd trwy ymdrechion O. M. Edwards pan oedd ef yn gadeirydd. Cyflwynodd gan cyfrol i'w

## Rhestr o

# .. L Y F R A U ..

.. Y N ..

## LLYFRGELL CYNGOR PLWY, LLANUWCHLLYN.

B A L A :

Argraffwyd yn Swyddfa'r WYTHNOS A'R EBYR.

sefydlu a bu'n cyfrannu £5 yn flynyddol tuag at y costau am lawer blwyddyn. Prynwyd cwprdd hardd, a gostiodd £7.10.0 i gadw'r llyfrau ac mae i'w weld hyd heddiw yn Neuadd Bentrff Llanuwchllyn.

Dyna brawf o werth llyfrau i'r cymwynaswr mawr a wnaeth ei orau dros ei werin. Heddiw, mae cymwynaswr arall yn byw yn hen gartref O.M., a da y gwelodd

Prifysgol Cymru eleni i roi gradd er anrhydedd i'r Bonwr Ifor Owen am ei gyfraniad yntau i fywyd Cymru.

Mewn arwerthiant y prynais innau gasgliad o lyfrau gŵr arall a garodd lèn a hanes ei wlad, a digon tebyg oedd y croeso gafodd y 'llanast' gan fy nheulu innau! Yn wir, os mai llanast sy'n rhoi pleser, pwy sydd eisieu trefn?

## YN EISIAU

*Literary Remains of the Rev. Thomas Price, Carnhuanawc.* Llanymddyfri, 1954. Dwy gyfrol.  
*Dafydd Johnson*, Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg.  
*Cysyllter â Brynley F. Roberts, Hengwrt, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth SY23 1HB.*

*Moulton, J. L.: Haste to the Battle: a Marine Commando at War.* London: Cassell, 1963.

*Jones, Owen (Meudwy Môn): Ceinion Llenyddiaeth Gymreig, dan olygiad Owen Jones.* Cyf. 1. Llundain: Blackie, 1875.

*D. G. Roberts, Cysulog, 79 Heol Wyn, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3DW.*

## YN EISIAU

*Bwyd Llwy o Badell Awen* (Geraint Bowen)  
*Alun Rowlands, 39 Pennant, Llangefni, Ynys Môn LL77 8NR* (01248) 722861.

*J. G. Williams: Omar.* Cysyllter â John Roberts, Erw Wen, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd LL54 7TB. Ffôn: (01286) 830505.

*Enwau Afonydd a Nentydd Cymru.* (R. J. Thomas). Caerdydd: G.P.C., 1938.  
*W. Brian L. Evans, 43 Ger y Llan, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HQ.* (01970) 828297.

## AR WERTH

*The Kymry* . . ., R. Owen, Caerfyrddin, Spurrell 1891. Pris £25 + cludiant.

*R. F. P. Powell, Danyprioridy, St John's Road, Aberhonddu, Powys LD3 9DS.* Ffôn: (01874) 625346.